Swyddi Datblygu Newydd i Cymru Yfory / Tomorrow's Wales

Hoffai Cymru Yfory benodi un neu ddau swyddog datblygu i gynorthwyo wrth adeiladu ymwneud dinesig cryfach yn siapio y cyfnod nesaf o ddatganoli yng Nghymru. Mae hon yn broses ymgeisio agored er mwyn atynnu ymgeiswyr sydd â dealltwriaeth a phrofiad o faterion Cymreig, sydd yn ymroddedig i sicrhau gwell cyfranogiad gan ddinasyddion Cymru wrth adeiladu trefn llywodraeth a allai gyflawni anghenion a gobeithion pobl Cymru yn well.

Termau y swydd	Hyd at 2 flynedd (yn dilyn cyfnod prawf o 6 mis)
	Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar gyfer penodiadau rhan amser i'r ddwy swydd hon. Lleolir y naill yn y de a'r llall yn y gogledd. Bydd gan y ddau gyswllt â, ac wedi eu lleoli gyda, Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) er y gallant weithio o gartref yn bennaf.
	Bydd un o'r 2 swydd yn arwain, a thrwy gydweithio agos ag Ysgrifenyddiaeth Cymru Yfory, yn adrodd yn ôl i Grŵp Rheoli a fydd yn goruchwylio y rhaglen waith fanwl.
	Ystyrir y posibilrwydd o secondiad.
	Perchir hawliau cyfartal wrth gysidro ceisiadau.
Cyflog	Bydd y termau ariannol yn cael eu pennu drwy drafodaeth. Mae cyllideb o £55,000 wedi ei neilltuo yn 2009/10 i'r perwyl hyn.

Gwahoddir rhai sydd â diddordeb i gyflwyno eu CV i Cymru Yfory gydag adroddiant byr yn amlinellu pa rinweddau fydden nhw yn ei ddod i'r swydd a beth y tybient fyddai y sialensiau allweddol yn rôl y Swyddog Datblygu.

Gyrrwch at:

Panel Dewis Swyddog Datblygu Cymru Yfory
d/o StrataMatrix
Tŷ Meandros
54a Heol Bute
Caerdydd
CF10 5AF

cymruyfory@stratamatrix.co.uk

Dyddiad Cau: 4ydd Mawrth 2009

Y Swyddi Swyddog Datblygu Newydd

Tasgau 'r swyddog/ion datblygu fydd i helpu Cymru Yfory i greu cyswllt ag unigolion a sefydliadau ar lawr gwlad yng ngwahanol ardaloedd Cymru, er mwyn adnabod a chynnwys sefydliadau sydd heb eu cynnwys hyd yma, a mobileiddio ymwneud gweithgar yn y broses yn enwedig ymysg bobl ifanc a sefydliadau ieuenctid. Yr amcan yw i greu clymbleidiau a rhwydweithiau cryfach ar draws Cymru: y gogledd, de, dwyrain a'r gorllewin, gan ymwneud â chyrff ar lawr gwlad yn fwy effeithiol na sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Mae hyn y cynnwys adeiladu cysylltiadau cryfach gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yr undebau llafur a'r gymdeithas ddinesig yn ei hystyr ehangaf.

Yn y ffordd yma, drwy weithio gydag amrediad o grwpiau a gydag ymdrech fwriadol i ymwneud â phobl ifanc ac arweinwyr ifanc, bydd y swyddog/ion datblygu yn sicrhau ymwneud dinesig ddyfnach yn y refferendwm ar ddatganoli sydd i ddod, gyda dealltwriaeth gyhoeddus well o beth sydd yn y fantol.

Bydd y Swyddog/ion Datblygu yn adrodd yn ôl yn gyson i Grŵp Rheoli fydd yn cael ei greu gan y Gweithgor er mwyn goruchwylio gweithredu rhaglen waith manwl, ac er mwyn sicrhau monitro cyson o'r perfformiad.

Cymwysterau a Phrofiad Gofynnol

Mae disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus gael gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn y meysydd canlynol:

Hanfodol

a) Dealltwriaeth o'r gamau datblygu datganoli yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys gwerthfawrogiad o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i gweithrediad dilynol;
b) Dealltwriaeth o drefn cymdeithas ddinesig Cymru ar hyd amrediad eang o feysydd polisi a'r materion sydd yn effeithio ar eu gallu i ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol;
c) Sgiliau rhyngbersonol ac entrpreneuraidd i helpu i greu clymbleidiau a rhwydweithiau fydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion Cymru Yfory;
d) Y gallu i wneud cyflwyniadau effeithiol, mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol, i gyflwyno safbwyntiau Cymru Yfory sydd wedi eu datblygu gan y Gweithgor, ac i ddrafftio adroddiadau cryno a phapurau briffio fydd yn cyfrannu at strategaeth cyfathrebu Cymru Yfory;
e) Profiad o weithio at amser penodol a sgiliau cyfrifiadurol a thechnolegol da.

Rhoir blaenoriaeth i ymgeisydd sydd yn rhugl yn y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Cyfrifoldebau y Swyddog/ion Datblygu

a) Hyrwyddo rhwydweithiau a chlymbleidiau o gymdeithas ddinesig Cymru i weithredu amcanion Cymru Yfory, gan roi sylw arbennig i ymgynghori â phobl ifanc a sefydliadau ieuenctid;

b) Darparu adborth gan sefydliadau llawr gwlad i'r Gweithgor ac adnabod mentrau a all arwain at mwy o ymwneud gan gymdeithas dinesig wrth siapio cam nesaf datganoli;

c) Gwneud cyflwyniadau am safle polisi Cymru Yfory pan fo'n angenrheidiol yng Nghymru a chyfrannu at gyhoeddiadau a gwefan Cymru Yfory;

d) Trefnu cyfarfodydd fel bo'r angen er mwyn dod ag unigolion a sefydliadau perthnasol at ei gilydd.

Am Cymru Yfory / Tomorrow's Wales

Mae Cymru Yfory yn fudiad traws-sector sydd yn dod â chynrychiolwyr o sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ynghyd. Fe'i sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2004, fel ymateb i adroddiad Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n cynnwys pobl o bob math o gefndiroedd, gan gynnwys prifysgolion, seiadau doethion (think-tanks), cymdeithasau cyfreithiol, y meysydd diwylliannol ac addysgol, cyrff crefyddol, undebau llafur, cwmnïau a'r rhwydweithiau o sefydliadau cymdeithas sifil/Cyrff Anllywodraethol (NGO) yng Nghymru. Mae'n annibynnol o bleidiau gwleidyddol yn gynrychioladol ohonynt. Rydym wedi ymrwymo fel clymblaid i helpu'r cyhoedd i fod yn ran o drafodaeth ddyfnach ynghylch dyfodol Cymru, ei llywodraeth a'i threfn o wneud penderfyniadau yn ddemocrataidd yng nghyswllt y broses o ddatganoli sydd yn digwydd yng Nghymru a ledled y DU, yn enwedig yn yr Alban.

Amcan Cymry Yfory yw:
I hyrwyddo dadl ddysgedig ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru a fydd yn arwain at bwerau deddfu effeithlon, hawdd i'w hadnabod, a sefydlog ac a fydd yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gwrdd ag anghenion a gobeithion pobl Cymru.

Ei amcanion penodol y:

- i annog gweithredu argymhellion Comisiwn Richard;
- i hyrwyddo a hysbysu dadl gyhoeddus ar ddyfodol gyfansoddiadol Cymru drwy hyrwyddo a lledaenu ymchwil, a threfnu cyfarfodydd cyhoeddus, seminarau a chynadleddau;

- i gynyddu'r ymgynghori rhwng cymdeithas sifil Gymreig a deddfwyr yng Nghymru a San Steffan.

I'r perwyl hwn, bydd Cymru Yfory yn chwarae rôl addysgiadol a mobileiddio, er mwyn annog y cyhoedd yng Nghymru i gymryd rhan weithredol yn y drafodaeth i bennu dyfodol Cymru, ei threfn llywodraethol a phenderfyniadol, yng nghyd-destun datblygiadau cyfansoddiadol ar hyd y DU. Bydd hefyd yn ymgeisio i hyrwyddo clymblaid traws-sector o gyrff cymdeithas sifil ledled Cymru, yn rhai cyhoeddus a phreifat, er mwyn asesu trefniadau presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i argymell system lywodraethu mwy atebol ddemocrataidd a chliriach ac er mwyn datblygu diddordeb ehangach a mwy o gyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

Cadeirydd Cymru Yfory yw'r Parchedicaf Ddr Barry Morgan, Archesgob Cymru. Mae cynllun llywodraethu a rheoli newydd wrthi yn cael ei baratoi yn dilyn adolygiad strategaeth ddiweddar o waith a pherfformiad Cymru Yfory hyd yma.